5.184

# HELYNT ENBYD DWY GLEBREN.

Digrifgan i gyfarfodydd adloniadol.

Mae genyf rigwm teneu,
  Am ddwy ferch ieuanc dlos,
A aethant oddicartref
  Am ddeg o'r gloch y nos;
Gwia.en fechan ydyw,
  Ac ar ei blaen mae chwip,
A chanu o'r fath yma
  A elwir talcen slip.

Miss Cathleen Jechoniah,
  A'r brydferth Sophi Breese,
Y ddwy, y merched glanaf
  Erioed a wisgodd grys;
Eu diben mae yn debyg,
  Oedd myn'd o dy i dy,
I adrodd clap a chelwydd,
  A phob hen stori ddu.

Pan oeddent hwy gyferbyn
  A ffynon Dafy'r te,
Fe welsant ryw ddau fachgen
  Yn sefyll ger y lle;
A dyna'r ddwy ar unwaith,
  Yn llamu dros ben claw,
Gan ddisgyn hyd ei haner,
  Mewn cors yr ochr draw.

Mor enbyd oedd y siglen,
  Fe glywais i yn siwr,
Fe fu y ddwy bren boddi
  Mewn mawn, a llaid, a dwr;
Heblaw fod chwyd brogaod,
  Yn llwyr andwyo grân,
Gwych adillad prydferth caru
  Y ddwy ferch ieuanc lan.

A dyma'r ddwy gyfeilles
  Yn dechreu cwympo ma's,
Gan daflu at ei gilydd,
  Ryw ffrwd o dafod cas,
Y naill i'r llall yn danod,
  "Nad yno byddai hi,"
"Pe cawswn inau lonydd,
  Nid elwn ddim o'r ty."

A phan yn rhydd y daethant,
  Fe aeth yn râs dros ben,
Rhedasant fel dwy filgast,
  Yn ol i'r Hafodwen;
Ac yno'r ddwy ferch ieuanc,
  Oedd gynt mor lan a thwt,
Yn awr fel dwy lyswen,
  O'u pen i'w traed yn fwt.

A dyma'r twba golchi
  Ar ffrwst i ganol llawr,
A Sophi 'n arllwys iddo,
  Naw o shwceidi mawr;
A dyna lle bu golchi,
  A rhwbio caled maith,
A newid dwr y twba
  Ryw ddeg neu ddeuddeg gwaith.

Bydd hon yn wers effeithiol,
  I bob rhyw chwaer a brawd
I beidio gwneyd ei hunain,
  Yn destyn cân a gwawd;
A pheidio ceisio gwrando,
  Tu draw i gloddiau mwy,
Er taenu clap a chelwydd
  Ar hyd a lled y plwy.

Os nad wyt ti'n lledaenu
  Un math o stori ddu,
Na hidia fy nghyfeilles,
  Nid yw yn gap i ti.

O'r Frenifawr. UGAIN MILLTIR.

x205 204933